Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Protocol ar gyfer Deisebau Cyhoeddus

## 1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Torfaen yn cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau pobl leol. Mae cyfranogiad y cyhoedd yn hanfodol i sicrhau bod anghenion a dyheadau pobl leol wrth graidd cymryd penderfyniadau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eisiau clywed gan bobl sy'n byw, gweithio a defnyddio gwasanaethau'r Cyngor ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae deisebau ac e-ddeisebau yn un ffordd i bobl adael i ni wybod am eu pryderon ac maent yn rhan o ymrwymiad parhaus y Cyngor i wrando a gweithredu ar farn y cyhoedd.

Gellir cyflwyno deisebau i gyfarfod o'r Cyngor llawn. Dangosir dyddiadau'r cyfarfodydd yma ar ein gwefan (https://moderngov.torfaen.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=137

Gellir anfon deisebau papur atom yn y cyfeiriad canlynol:

Pennaeth gwasanaethau Democrataidd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Glantorfaen Road
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB
Ebost: DemocraticServices@Torfaen.gov.uk

Dangosir templed deiseb yn atodiad 1 y protocol hwn a bydd hwn yn eich helpu i weld pa wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn ystyried eich deiseb dan delerau'r protocol hwn.

O fis Gorffennaf 2022 ymlaen, gellir creu, llofnodi a chyflwyno e-ddeisebau arlein drwy ddilyn y ddolen yma https://moderngov.torfaen.gov.uk/mgEPetitionListDisplay.aspx?bcr=1

Os ydych eisiau cyflwyno eich deiseb i'r Cyngor Llawn, cysylltwch â'ch cynghorydd lleol a fydd yn noddi eich deiseb a hefyd yn ei chyflwyno ar eich rhan os nad ydych eisiau gwneud hynny yn bersonol. Gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfeiriad ebost DemocraticServices@torfaen.gov.uk neu ar y ffôn (01495 762200 a gofyn am gael siarad gydag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd) i gael arweiniad ar y broses.

Ni fydd deisebau a gyflwynir i'r Cyngor Llawn yn cael eu trafod yn fanwl ar y pwynt hwnnw, oni fo eitem ar yr agenda yn ymwneud â'r pwnc hwnnw yn benodol. Bydd

deisebau a dderbynnir yn y Cyngor Llawn yn cael eu hanfon at yr Aelod Gweithredol / swyddog priodol i'w hystyried yn iawn cyn paratoi ymateb ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r Cyngor wedi hynny.

2 Beth ddylai deiseb ei gynnwys?

Rhaid i ddeisebau a gyflwynir i'r Cyngor gynnwys:

- datganiad clir a chryno yn delio gyda phwnc y ddeiseb – dylai nodi pa gamau yr hoffai'r deisebwyr i'r cyngor eu cymryd (neu roi'r gorau i'w cymryd)
- enw a chyfeiriad a llofnod unigol unrhyw berson sy'n cefnogi'r ddeiseb

Dylid cynnwys manylion cyswllt gyda deisebau, gan gynnwys cyfeiriad y sawl sy'n trefnu'r ddeiseb. Dyma'r person y byddwn yn cysylltu â nhw i esbonio beth fyddwn yn ei wneud wrth ymateb i'r ddeiseb. Os nad yw'r ddeiseb yn enwi trefnydd y ddeiseb, byddwn yn cysylltu gyda'r llofnod cyntaf ar y ddeiseb i gytuno pwy a ddylai weithredu fel trefnydd y ddeiseb.

Fel rheol, bydd y Cyngor yn derbyn y ddeiseb yn ei gyfarfod nesaf, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl, ac os felly bydd y ddeiseb yn cael ei derbyn yn y cyfarfod nesaf.

3 A oes unrhyw ddeisebau na fydd y Cyngor yn eu derbyn?

- Lle mae person neu sefydliad (neu rywun ar eu rhan) wedi cyflwyno deiseb sydd yr un fath neu'n sylweddol yr un fath o fewn y 12 mis blaenorol.

  - Ni fydd materion gweithwyr yn cael eu trin drwy'r broses ddeisebu, gan y byddant yn cael eu trin drwy fframweithiau mewnol.

  - Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio gyda'ch deiseb yn wahanol – os yw hyn yn wir, byddwn yn esbonio'r rhesymau ac yn trafod yr amserlen ddiwygiedig a fydd yn berthnasol.

  - Os nad yw deiseb yn dilyn y canllawiau, gall y Cyngor benderfynu peidio â gwneud unrhyw beth pellach ynglŷn â hi. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r rhesymau.

  - Ni fydd deiseb yn cael ei derbyn os ystyrir ei bod yn flinderus, ymosodol, difenwol, yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol, neu lle gallai ei chyhoeddi gynrychioli trosedd.

Byddwn yn esbonio ein rhesymau mewn llythyr os nad yw eich deiseb wedi ei derbyn.

4 Sut fydd y Cyngor yn ymateb i ddeisebau?

Os yw eich deiseb yn ymwneud â rhywbeth lle nad oes gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol drosto, byddwn yn ystyried gwneud sylwadau ar ran y gymuned i'r corff

perthnasol. Os yw'n bosibl byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid hyn i ymateb i'ch deiseb. Os na allwn wneud hyn am unrhyw reswm, byddwn yn esbonio hyn i chi.

Os yw eich deiseb yn ymwneud â rhywbeth y mae cyngor gwahanol yn gyfrifol amdano, byddwn yn ystyried beth yw'r dull gorau o ymateb iddo. Gall hyn olygu anfon y ddeiseb ymlaen i'r cyngor arall, ond gallai olygu cymryd camau eraill. Beth bynnag, sy'n digwydd, byddwn bob amser yn eich hysbysu o'r camau rydym wedi eu cymryd.

Fel bod pobl yn gwybod beth rydym yn ei wneud mewn ymateb i'r deisebau a dderbynnir, bydd manylion yr holl deisebau a dderbyniwn yn cael eu cyhoeddus ar ein gwefan, ynghyd a chydnabyddiaeth a hysbysiad o'r ymateb (ac eithrio lle byddai hyn yn amhriodol).

5 E-ddeisebau

Mae'r Cyngor yn croesawu e-ddeisebau yn cael eu creu a'u cyflwyno drwy ei wefan.

Rhaid i e-ddeisebau ddilyn yr un canllawiau â deisebau papur ac yn ychwanegol at hynny:

- Rhaid i drefnwyr deiseb a llofnodwyr ddarparu cyfeiriad ebost dilys ynghyd â'u henw a'u cyfeiriad, a
- Rhaid i'r cyfnod lle mae'r ddeiseb yn agored i gael ei harwyddo gael ei benderfynu ar y cychwyn.

Bydd angen i drefnydd y ddeiseb ddarparu eu henw, cyfeiriad post a chyfeiriad ebost, a bydd angen iddynt benderfynu am faint o amser y mae'r ddeiseb yn agored i gael ei llofnodi.

Pan fyddwch yn creu a chyflwyno e-ddeiseb, gall gymryd 10 diwrnod gwaith cyn y caiff ei chyhoeddi ar y wefan. Bydd y ddeiseb yn cael ei chydnabod o fewn 10 diwrnod gwaith a bydd hyn yn cynnwys dolen i'r ddeiseb ar wefan y Cyngor.

Pan fydd yr e-ddeiseb yn cyrraedd y dyddiad cau, bydd yn cael ei chau i lofnodion pellach ac yn cael ei chyflwynon awtomatig i'r Gwasanaethau Democrataidd lle caiff ei phrosesu yn yr un modd a deisebau papur.

Os ystyrir na ellir cyhoeddi eich deiseb am ryw reswm, bydd y Cyngor yn cysylltu gyda chi yn y cyfnod hwn i esbonio. Gallwch newid ac ailgyflwyno eich deiseb os dymunwch wneud hynny. Os nad ydych yn gwneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith, bydd crynodeb o'r ddeiseb a pham nad yw wedi ei derbyn yn cael eu cyhoeddi dan yr adran 'deisebau a wrthodwyd' ar y wefan.

Gellir cyflwyno e-ddeisebau a grëwyd drwy wefannau ac eithrio gwefan y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ond bydd angen iddynt fodloni'r meini prawf a bennwyd.

Os hoffech gyflwyno e-ddeiseb i gyfarfod o’r Cyngor Llawn, cysylltwch â’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd i gael cyngor neu gymorth pellach, drwy’r cyfeiriad ebost DemocraticServices@torfaen.gov.uk

6 Beth allaf ei wneud os rwy’n teimlo nad yw fy neiseb wedi ei thrin yn briodol?

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi delio gyda’ch deiseb yn briodol, cysylltwch â’r Swyddog Monitro (cyfeiriad isod) a fydd yn ystyried eich cwyn ac yn eich hysbysu o’r camau y bwriedir eu cymryd. Nodwch esboniad byr o’r rhesymau yn eich gohebiaeth gyda ni.

Swyddog Monitro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Glantorfaen Road
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Atodiad 1

Templed Deiseb

Defnyddiwch y templed hwn, a dylai tudalennau ychwanegol hefyd gynnwys pwnc y ddeiseb ar frig y dudalen.

Cyfeiriwch at y cynllun deisebau sydd ar gael yn www.torfaen.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn delio gyda deisebau yn y Cyngor.

Manylion cyswllt y Prif Ddeisebwr (y person y bydd y Cyngor yn cysylltu â nhw mewn perthynas ag ymatebion i'r ddeiseb)

| | |
|---|---|
| Enw llawn: | |
| Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth: | |
| Rhif ffôn: | |
| Cyfeiriad ebost: | |
| Byw / Gweithio / Defnyddiwr gwasanaeth (nodwch bob un sy'n berthnasol): | |
| Llofnod: | |
| **Pwnc y Ddeiseb:** | |
| **Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn deisyf ar y Cyngor i:** | |
| **Crynodeb o'r camau a gymerwyd eisoes (os yn berthnasol)** | |

| **Enw** | **Cyfeiriad** | **Llofnod** | **Cyfeiriad ebost** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |